**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00497/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Mawrth 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich e-bost 11 Chwefror ynghylch Deiseb P-05-947 mewn perthynas â chodi tâl am lythyrau ymarferwyr cyffredinol.

Mae Cymru Iachach yn nodi ein cynllun ar gyfer gwasanaethau iechyd yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus, gyda'r person cywir yn darparu'r gofal cywir ar yr adeg gywir. Mewn llawer o achosion nid Ymarferydd Cyffredinol fydd y person gorau i roi cymorth i fyfyriwr - gallai swyddogion cymorth neu gynghorwyr fod mewn sefyllfa well i gefnogi myfyrwyr wrth gyflwyno achos dros amgylchiadau arbennig.

Mae Ymarferwyr Cyffredinol yn rhoi gwasanaethau'r GIG yn ddi-dâl o fewn ffiniau'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol. Er hynny, fel contractwyr annibynnol cânt ddewis, o dan rai amgylchiadau, godi tâl am lenwi ffurflenni neu adroddiadau ar ran trydydd partïon nad ydynt mewn cysylltiad â darparu gofal iechyd y GIG.

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) yn awgrymu ffioedd y gall Ymarferwyr Cyffredinol eu codi ar eu cleifion am waith nad yw'n waith y GIG (hy gwaith nad yw'n dod o dan eu contract â'r GIG) er mwyn helpu Ymarferwyr Cyffredinol i bennu eu ffioedd proffesiynol eu hunain. Er hynny, fel canllaw yn unig y bwriedir y ffioedd a awgrymir gan y BMA. Nid ydynt yn argymhellion ac nid oes rhwymedigaeth ar feddyg i godi'r cyfraddau y mae BMA yn eu hawgrymu. Bwriad hyn yw cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n atal arferion gwrth-gystadleuol. Mae hyn yn golygu y bydd y penderfyniad a'r swm i'w godi am wasanaethau o'r fath yn amrywio o bractis i bractis ac weithiau ni chodir tâl o gwbl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth ichi.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services